

ECO'R WYDDFA

RHIF 389

MEHEFIN 2011

PRIS 50c

YN Y RHIFYN HWN:

- Pencampwyr chwaraeon o bob rhan o'r fro
- Rol Williams yn holi "Beth aeth o'i le?"
- Dirgelwch 'Old Mantlet'

PRIFDDINAS CHWARAEON ANTUR CYMRU

Dyna'r disgrifiad sy'n cael ei roi i Lanberis bellach, gyda digwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o bwys yn cael eu cynnal yno. Mae Ras yr Wyddfa a Marathon Eryri wedi hen ennill eu plwy yn y calendr chwaraeon, ac yn denu cannoedd i'r ardal yn eu sgil.

Yn ystod mis Mai, ychwanegwyd dwy fenter arall fydd yn denu athletwyr i'r ardal. Nid dyma'r tro cyntaf i gystadleuaeth triathlon gael ei chynnal yma, ond mae Triathlon Slateman Eryri yn fwy lleol ei naws; yn cael ei threfnu'n lleol ac yn defnyddio cwmnïau lleol fel Surfines a beics Cân y Graig o Lanberis i gynorthwyo.

Y Gampfa Antur yw'r ail atyniad i gael ei sefydlu – a bydd y fenter hon ar gael gydol y flwyddyn, ac o fudd i'r boblogaeth leol ac i ymwelwyr. Phil Nelson o gwmni Surfines sydd yn gyfrifol am y gampfa, a'r syniad yw cael unigolion neu deuluoedd i ymaelodi er mwyn cael defnydd o adnoddau chwaraeon dŵr fel canŵ a kayak. Mae'n union fel aelodaeth campfa arferol, ond fod y Gampfa Antur oddi allan, yn mwynhau awyr iach, dŵr croyw a golygfeydd anhygoel bob tymor o'r flwyddyn.

Kate Humble, cyflwynydd rhaglenni teledu *Springwatch* a *Lambing Live* fu yn Llanberis yn cyhoeddi'r Gampfa Antur ar agor. Cynhaliwyd diwrnod agored, a daeth dros gant a hanner o bobl ac ieuencid i'r digwyddiad. Bu'r lagŵns yn Y Glyn yn hynod brysur, a hwyliodd llynges liwgar o bob math o gychod ar draws Llyn Padarn fel rhan o'r hwyl.

Mae'r cwmni wedi ei sefydlu yn Llanberis ers dros ddeng mlynedd, ac mae bellach yn cyflogi pump o weithwyr llawn amser a dau weithiwr tymhorol. Mae hyd at ddeg o arbenigwyr ar alwad pan fydd cyfnodau prysur neu gyrsiau arbenigol yn cael eu cynnal. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â phil@surf-lines.co.uk.

TRIATHLON SLATEMAN ERYRI



Plymio i ddŵr oer Llyn Padarn



Y Tîm Buddugol: Owain Rhys James (Deiniolen) - Nofio; Gareth McGuinness (Llanrug) - Beici ac Alun Vaughan (Llanberis) - Rhedeg.



Yr Ail Dim: Keith (Brynrefail) - Nofio; Aled Roberts (Llanrug) - Beicio a Dylan W. Jones (Deiniolen) - Rhedeg.

Nofio, beicio a rhedeg. Dyna dair nodwedd cystadleuaeth triathlon. Mae'r nofio fel arfer mewn dŵr llonydd, y beicio ar ffyrdd syth a'r rhedeg ar wyneb gwastad. Nid felly yr her yn wynebu'r rheini fu'n ddigon dewr i fentro i Lanberis ar fore Sul, 22ain o Fai.

Plymio i ddŵr oer Llyn Padarn am hanner awr wedi naw y bore a nofio 750 metr (bron i hanner milltir). Beicio o Lanberis i fyny'r Bwlch i Ben y Gwryd. Yna i lawr Dyffryn Mymbyr a throi am Nant Ffrancon a Bethesda. Yn ôl drwy Bentir a heibio Beran cyn disgyn i Frynrefail a throi am Lanberis. Taith o 51 cilomedr.

Yna'r rhedeg. Dilyn lôn Glan y Bala ac i mewn i Orsaf Bwer Dinorwig. Cyrchu glannau Llyn Peris cyn troi ac igam-ogamu trwy'r chwarel i Ddinorwig. Yna i lawr am Barc Padarn cyn dringo i Chwarel Goch a dilyn lôn Y Fachwen cyn troi'n ôl i Barc Padarn a dilyn y llwybr garw am Lanberis: taith o 11 cilomedr.

Roedd yr 'Eco' yn cael ei 'roi yn ei wely' cyn i'r gystadleuaeth orffen, felly cawn fwy o hanes y cystadleuwyr lleol yn y rhifyn nesaf.

Y GAMPFA ANTUR



Llun: Ray Wood

Kate Humble yn lansio'r Gampfa Antur ar Llyn Padarn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 389

MEHEFIN 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com

neu
Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 19 MEHEFIN

Os gwelwch yn dda.

Dyddiad Gosod
NOS SUL, 26 MEHEFIN
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 30 MEHEFIN

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Gorffennaf	Meh 19	Meh 26	Meh 30	Bethel

Llythyrâu

BEICIO ER BUDD ELUSENNAU

Annwyl Ddarllenwyr
Bydd tri ohonom (Ian Jones, Kai Banholzer a Nidian Huws) yn seiclo o gastell Caernarfon i gastell Caerdydd ar Fehefin y 9fed ac yn gobeithio cwblhau y daith mewn tri diwrnod. Bydd y tri ohonom yn seiclo trwy gydol yr amser ac yn aros mewn gwestai yng Ngharno a Merthyr Tudful sydd, yn garedig iawn, wedi cytuno i adael i ni aros ar bris gostyngedig.

Byddwn yn gwneud hyn i gyd i gofi arian i elusennau gwerthfawr iawn, sef 'Alzheimer Society' ac 'MS Society'. Rydym yn gobeithio codi llawer o arian i'r elusennau gyda chymorth y cyhoedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Eco'r Wyddfa am gyhoeddi'r llythyr am ein hapêl er mwyn ein helpu i gasglu cymaint o arian ac sy'n bosib.

Yr gywir iawn,
Ian Jones


DIOLCH ETHOLIAD

8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE

Annwyl Olygydd
Hoffwn ddiolch o galon i bawb a bleidleisiodd i'm hail ethol, gyda mwyafrif sylweddol, i wasanaethu am dymor arall fel Aelod Cynulliad dros Arfon. Roedd derbyn 57% y cant o'r pleidleisiau yn anrhydedd fawr, ond rydw i'n ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sy'n dod yn sgil y fath bleidlais o hyder.

Diolch yn arbennig i bawb o dim ymgyrchu Plaid Cymru yn Llanberis a'r cyffiniau a weithiodd yn ddiflino dros yr achos. Heb eu hymdrechion nhw fasen ni ddim wedi sicrhau'r fath ganlyniad.

Mae yna heriau enfawr o'n blaenau wrth inni wynebu mwy



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

o doriadau ariannol, gyda phrinder enbyd o ran swyddi a thai ymhlith pethau eraill. Ond mae yna gyfleoedd hefyd, a'm tasg i ydi hyrwyddo a hwyluso'r cyfleoedd hynny hyd eithaf fy ngallu ym mhob rhan o'r etholaeth.

Byddaf yn parhau i wneud fy ngorau dros fy etholwyr i gyd, beth bynnag fo'u daliadau gwleidyddol, ac mae croeso i unrhyw un fyddai'n hoffi trafod unrhyw fater gysylltu â swyddfa Plaid Cymru yng Nghaernarfon (01286 672076).

Yn gywir

ALUNFRED JONES AC

CIST CYMUNEDOL GWYNEDD

Annwyl Olygydd,
Hyderaf y bydd y canlynol o ddiddordeb i'ch darllenwyr:

Mae Cist Cymunedol Gwynedd yn cychwyn blwyddyn arall o gefnogi cynlluniau datblygu chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Yn ystod 2010/2011 bu i 59 mudiad lwyddo gan dderbyn bron i £47,000 rhyngddynt. Mae uchafswm y grant wedi cynyddu eleni i £1500.

Dyma amserlen Cyfarfodydd 2011/2012 Panel Cist Cymunedol Gwynedd a'r dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau.

Cyfarfod	Dyddiad Cau
Ebrill 4	Mawrth 14
Mehefin 6	Mai 16
Gorffennaf 11	Mehefin 20
Medi 5	Awst 15
Tachwedd 7	Hydref 17
Chwef 6, 2012	Ionawr 16 2012

Mae cyfle wedi ymddangos i dderbyn mwy o aelodau ar banel Cist Gymunedol Gwynedd. Hwn yw'r panel sy'n cyfarfod 6

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

RHODDION

£20: Megan Jones, 56
Glanffynnon, Llanrug; Er
cof cariadus am Gwyn, 8
Trem Eilian, Brynrefail fu
farw ar Fai 30ain 2010 - Dad,
Mam Meilir, Delyth a'r
hogiau.

£10: Ceri Jones, Llys Eryri,
Llanrug; John a Menna
Williams, Fferm Minffordd,
Llanrug

£5: Daniel Ellis, 3 Hafod
Olau, Deiniolen; Di-enw,
Llanrug; Llion a Linzi ac
Elan Mai.

gwaith y flwyddyn ym
Mhorthmadog i wneud
penderfyniadau ar geisiadau.

Os oes gan unrhyw un awydd
bod yn aelod o banel Cist
Cymunedol Gwynedd
cysylltwch ag Elwyn Jones am
fwy o fanylion.
Elwynjones1@gwynedd.gov.uk
Yn gywir

RHIAN DOBSON

Swyddog Datblygu Chwaraeon
Cynorthwyol Cyngor Gwynedd.

Cyngerdd
AT APEL YR URDD 2012

**Nos Wener
Mehefin 17eg.**

7.30

Yn Y Ganolfan Llanberis

- Cyda
- ★ Lleisiau Lliwedd
 - ★ Côr Meibion Dyffryn Peris
 - ★ Elin Mai Jones
 - ★ Llio Dudley Garn Dolbenmaen
 - ★ Cloccio Cofis
 - ★ Band Pres Ysgol Brynrefail
Arweinydd Gavin Saynor

Pris Mynediad- £3. i bawb
Tocynnau ar gael gan Aelodau'r Corau
a Pwyllgor yr Urdd NEU AR Y DRWS
Yr elw tuag Eisteddfod yr Urdd 2012

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cyngor Gwynedd yn ethol Cadeirydd newydd

Mewn cyfarfod blynyddol o Gyngor Gwynedd ar 12 Mai, etholwyd y Cynghorydd John Gwilym Jones (Llanengan) yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd, a'r Cynghorydd Richard Leonard Jones yn Is-Gadeirydd.

Wedi ei fagu yng Nghilan, Abersoch, graddiodd y Cynghorydd Jones o Brifysgol Cymru Bangor. Wrth gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd, dywedodd y Cynghorydd John Gwilym Jones:

'Mae'n fraint cael fy ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd.

Byddaf yn gwneud fy ngorau i wasanaethu holl drigolion y sir yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.'

Yn Gyngorydd Gwynedd ers 2004, mae'r Cynghorydd Jones yn Gyngorydd Cymuned ers 30 mlynedd ac yn Gadeirydd Gorsaf Bad Achub Abersoch ers 25 mlynedd.

Mae'n briod â Wendy ac mae ganddynt fab a merch ac un wyres fach.

Etholwyd y Cynghorydd Richard Leonard Jones (Deiniolen) yn Is-Gadeirydd y Cyngor. Mae'n aelod o Gyngor Gwynedd ers 1996.



Cadeirydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd John Gwilym Jones gyda'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Richard Leonard Jones.

Malcolm yn beicio eto eleni



Mae Malcolm Pitts wedi gwneud y daith beicio a nofio nodedig unwaith eto eleni i godi arian i Ward Alaw a Meddygfa Llanberis er cof am ei ddiweddar wraig Yvonne. Fe wnaeth feicio yng nghwmni Darren Brame o Plas Menai i Ddeganwy ac yn ôl, cyfanswm o dros 50 milltir mewn llai na 5 awr. Ers colli ei wraig i ganr y

fron ym mis Mehefin 2006, mae Malcolm wedi codi dros £7000 i Ward Alaw, meddygfa Llanberis a meddygfa Waunfawr.

Mi fydd yn cyflwyno y sieciau ym mis Mehefin felly os oes unrhyw un yn awyddus i'w noddi mae digon o amser i wneud hynny ac mae'n bosib cysylltu hefo Malcolm ar 01286 676542.

Noson Lansio Llyfr Norman Closs yn Y Ganolfan



Norman Closs parry a Dei Tomos.

Myfyrion Naturiaethwr

Nid yw natur byth yn aros...
pedwar tymor, beunydd beunos...
cau fy llygaid, bore wedyn
syndod stond, bu newid sydyn.

Nid oes angen symud brodir
Nid oes angen gweld cyfandir.
Wrth fy nrws ymddengys gwyrthiau
At fy nrws daw tro'r tymhorau.

Mae fy nghalon yn llawn tristwch,
ceisio... methu dal yr harddwch...
Methu yn lân a chadw'i fyny
â gemau lu 'rhen drysordy!

Gweld ac edrych... dechrau cyfri...
amser hau... daw amser medi!
Faint o amser sydd im eto
werthfawrogi'r hyn â heibio?

NORMAN CLOSS

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF

Cefnogwch ein hysbysebwyrr

O SLAMBAR SELWYN

Dros Wyl y Pasg bu farw Y Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd W.J. Gruffydd, Elerydd. Roedd o wedi cyrraedd yr oedran teg o 94, ac fe enillodd y Goron ddwywaith yn y Genedlaethol, sef yn 1955, Pwllheli, a 1960, Caerdydd. Bu'n Archdderwydd Cymru o 1984-1987.

Rhaid cydnabod bod un peth o blaid cael eich ethol yn Archdderwydd, sef bod ganddoch siawns go dda i gyrraedd oedran teg. Pwy fasa'n meddwl, o'r 31 Archdderwydd o ddyddiau Clwydfardd hyd heddiw, bod 'na saith ohonom ni yn dal ar dir y byw ac wedi cael bonws go hael dros oed yr addewid hefyd.

Deuthum i adnabod Elerydd sawl blwyddyn yn ôl bellach pan oeddwn yn ymweld â Steddfod Pontrhydfendigaid fel cystadleuydd ar y cychwyn, ac yna yn ddiweddarach, fel beirniad. Elerydd a'i gyfaill Y Prifardd Dafydd Jones, Ffair Rhos, fyddai yn gofalu am y seremonïau yn Eisteddfod fawr y Bont. Ac fe roedd hi'n Eisteddfod Fawr hefyd gyda'r gwobrau ariannol yn fwy o lawer na'r Eisteddfod Genedlaethol - diolch i haelioni y diweddar David James.

Fe gofiai i Elerydd sawl tro fy nhywys tu allan i bafiliwn Y Bont a thoi ei olygon i gyfeiriad Ffair Rhos ac adrodd y geiriau 'Nid oes o Fwlch y Gwynt ond ton-y-botel-daith i sgwâr Ffair Rhos.' Ia, llinell agoriadol ei bryddest 'Ffenestri' a enillodd Goron Genedlaethol Pwllheli iddo yn 1955. Bwlch-y-Gwynt, wrth gwrs, oedd ei gartref yn ystod ei blentyndod. Pryddest boblogaidd a apeliodd at brifadroddwyr, a sawl tro mewn eisteddfodau led-led Cymru bwm yn gwrandao ar adroddwyr talentog yn cyflwyno detholiad o 'Ffenestri'.

Bu dylanwad Elerydd, Rhydwen a T. Glyn Davies arna i fel prentis o fardd, a chefais fy

atgoffa o hynny gan sawl beirniad ac roedd y feirniadaeth yn gwbl deg. Cofiai i Elerydd a Rhydwen alw acw yn Bryn Alun, Bethel, sawl blwyddyn yn ôl pan oedd Undeb y Bedyddwyr yng Nghaernarfon. Roeddent yn awyddus i weld bedd W.J. Gruffydd ym mynwent Llanddeiniolen. Manteisiais ar y cyfle i dynnu llun hanesyddol, sef llun Elerydd (W.J.G.) uwchben bedd 'yr athro, bardd a llenor' o Fethel. Mae copi o'r llun yn fy atgofion.

Roedd gan Elerydd hiwmor arbennig ac fe welir hyn yn ei gyfrolau rhyddiaith megis Tomos a Marged, ac eraill. Mae ei farddoniaeth hefyd yn gwbl ddealladwy, a dyna pam y bu cymaint o adrodd cyhoeddus ar ei waith. Y wobr bennaf y gall unrhyw fardd ei gael ydi bod 'na ddefnydd yn cael ei wneud o'i waith o. Rwy'n cofio cael dau gyngor ganddo,

'Shelwyn bach', ie Shelwyn nid Selwyn. 'Shelwyn bach,' meddai 'os wyt ti'n bwriadu ennill y goron rhywdro, gofala fod y drafft cynta' yn barod cyn y 'Dolig.' Cyngor doeth.

Ac un arall (a'i dafod yn ei foch, o bosib):

'Pam na wnei di ganu cerdd dywyll iddyn nhw [sef y beirniad] a gadael iddyn nhw egluro i ti beth sydd ynddi?'

Oedd, roedd Elerydd yn gymeriad direidus ac yn fwrllwm o hiwmor. Pwy ond y fo, ar ei ymddangosiad cynta' fel Archdderwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr-pont-Steffan 1984, fyddai'n meiddio dweud, a hynny cyn y feirniadaeth,

'Mi alla i eich sicrhau chi gyfeillion y bydd yna goroni yma y prynhawn 'ma.' Taran o gymeradwyaeth gan y dyrfa a phawb yn falch. Ond roedd gan Elerydd un gair i'w ychwanegu sef, 'os ceir teilyngdod.'

Byddwn yn ei gyfarfod ambell

dro yn rhai o Eisteddfodau cefn gwlad gogledd Aberteifi pan fyddai yn dod â nifer o'i ddisgyblion i gystadlu ar adrodd. Ar ddiwedd cyfarfod y prynhawn fe gawn gyfle am sgwrs ac fe gawn innau gerydd a gwers os byddwn wedi gwneud cam ac un o'i ddisgyblion addawol. Fel y gwyddoch chi eisteddfodwyr, y diweddar Archdderwydd Dic yr Hendre oedd y cyntaf i gael y fraint o wisgo gwisg newydd yr

Archdderwydd. Elerydd oedd y cyntaf i wisgo y wisg flaenorol, a minnau oedd yr olaf i'w gwisgo.

Archdderwydd y werin oedd Elerydd. Ni fynodd, mwy na finna, ddod â gwleidyddiaeth i'r Maen Llog. Ei hiwmor bob amser yn ysgafnhau'r difrifoldeb seremonïol, ond gofalai bob amser gadw urddas y seremonïau. Braint i mi oedd cael adnabod Elerydd a chael peth o'i gwmni ar faes eisteddfodau bach a mawr.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PENBLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau i Aron, 11 Trem Eilian, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 30ain.

DIOLCH Dymuna teulu y ddiweddar Margaret M. Jones (Megan), Greuor Villa, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u geiriau o gysur yn dilyn ymadawiad, wedi cyfnod byr o waeledd, un oedd mor annwyl ganddynt ac yr hiraethir yn fawr amdani. Gwnaed casgliad er cof am Megan ac fe fydd yr arian a gasglwyd yn cael ei rannu rhwng dau sefydliad fu'n gefn mawr i'r teulu yn ystod y cyfnod o waeledd a thrallod, sef Meddygfa Llanberis a Chronfa Marie Curie. Gobaith y teulu yw bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio gan y sefydliadau er mwyn gofal teilwng cyffelyb i gleifion a'u teuluoedd yng Ngwynedd.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

OEDFA'R PASG. Cynhaliwyd oedfa'r Pasg gyda'r Parch Reuben Roberts, Bontnewydd yn gwasanaethu. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Marga Bee oedd gwraig wadd cyfarfod mis Ebrill o'r gangen leol.

Cafwyd arddangosfa ganddi o eitemau ar gyfer tai doliau.

Ei diddordeb pennaf yw cynllunio'r doliau, y tai, eu dodrefn ynghyd ag eitemau bychain amrywiol a chywrain iawn.

Diddorol iawn hefyd oedd ei chynllun o ardd fechan a siop sgloedion a phob eitem ynddynt yn llawn manylder.

Roedd cyfarfod mis Mai yn rhoi cyfle i'r aelodau gael trafodaeth ar gyfer Argymhellion Cyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched a gynhelir eleni yn Lerpwl.

Dau Argymhelliad oedd gerbron sef annog y Llywodraeth i sicrhau na roddir caniatad cynllunio ar gyfer 'Meg Farms' yn y wlad hon

a chais i beidio a chau Llyfrgelloedd Lleol.

Yn dilyn y drafodaeth croesawyd y wraig wadd Sarah Salisbury i drafod hunan-amddiffyn.

Fel arbenigwraig, dangosodd nifer o sgiliau amddiffyn a sut i osgoi perygl ynghyd ag ymarferion i ymlacio'r corff a'r meddwl.

Roedd cydnabyddiaeth y noson yn mynd tuag at elusen 'Race for Life'.

Trefnwyd noson hefyd ddiwedd y mis gan y llywydd Pat Jones i fwynhau arddangosfa Gwisgoedd Priodas Paula's yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis.

Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Mai 12fed. Cadeirydd y noson oedd Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrdd yn cynnwys darlenniadau o waith y Prifardd Dic Jones a oedd yn arweiniad i sgwrs y noson gan Gareth Roberts o Ddeiniolen.

Testun ei sgwrs oedd 'Crwydro a Darganfod'. Cyflwynodd adroddiad cynhwysfawr a hwyliog o'i yrfa a'i waith diweddar yn mapio llwybrau hanesyddol plwyfi a thynnu lluniau arbennig iawn o olygfeydd o'r ucheldir a'r ffurfafen ar nosweithiau lloer olau. Edrychir ymlaen am y llyfr o'i eiddo o'r darluniau anhygoel hyn fydd allan o'r wasg cyn diwedd y flwyddyn. Diolchwyd yn gynnes iddo am noson ddiddorol iawn gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Mehefin yng nghwmni y Parch Tegid Roberts, Penisarwaun.

OEDFAON MEHEFIN

5 am 5.30: Parch Deian Evans, Gofalaeth Bro Lleu

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

12 am 2: Parch Olwen

Williams, Tudweiliog

19 am 5.30: Mr J.O. Roberts, Bethesda

26 am 10: Parch Geraint Hughes, Bethesda

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

Clybiau Ieuenctid Llanrug ar y blaen

Mae pobl ifanc o ledled Gwynedd wedi dod i'r brig mewn nifer o gystadlaethau ar gyfer clybiau ieuenctid trwy Gymru gyfan.

Roedd timau o nifer o glybiau ieuenctid Gwynedd yn cystadlu yng nghystadlaethau Gweithgareddau Ieuenctid Cymru a gynhaliwyd yn Y Drenewydd - gyda 68 o aelodau o glybiau ieuenctid Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau a Llanrug yn cymryd rhan.

Roedd y bobl ifanc oedd yn cynrychioli Gwynedd yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau gwahanol gan gynnwys coginio, canu a dawnsio, gwaith crefft, barddoniaeth, cwis a pêl-droed.

Cafwyd cystadlu brwd iawn, gyda thimau Gwynedd yn llwyddiannus iawn gan ennill cwpanau'r adrannau dawnsio a pêl-droed ynghyd â nifer arall o wobrwyr yn y cystadlaethau eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Roy Owen, sy'n arwain ar Wasanaethau Ieuenctid i Gyngor Gwynedd:

'Llongyfarchiadau mawr i'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan. Mae llwyddiant ein clybiau ieuenctid yn dyst o'r dalent



arbennig sydd yma yng Ngwynedd.

'Dyma gadarnhad fod clybiau ieuenctid Gwynedd yn cynnig amrediad o gyfleon a gweithgareddau hwyliog ar gyfer pobl ifanc y sir.'

Yr enillwyr yn y dawnsio oedd Llinos a Sioned (parau iau) o glwb Blaenau Ffestiniog, Chloe ac Arianne (parau canolig) o glwb Llanrug, gyda thimau dawnsio iau clwb Llanrug yn gyntaf a thîm canolig Llanrug yn ail.

Enillodd tîm pêl-droed genethod iau Caernarfon a thîm bechgyn canolig Llanrug eu cystadlaethau gyda thîm pêl-droed bechgyn hŷn Caernarfon yn drydydd.

Fe gafodd Michael Allman o glwb Llanrug ail yn y pwl iau gydag aelodau clwb Caernarfon yn cael yr ail wobwr mewn gwaith crefft. Enillodd tîm cwis clwb Llanrug y drydedd wobwr yn eu cystadleuaeth nhw.



Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL
GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:

(01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Blodau
Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*

AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

ROL WILLIAMS YN GOFYN BETH AETH O'I LE?

Rwyf wedi meddwl droeon am wyntyllu fy nheimpladau parthed bywyd pentrefol yr ardal, ond o bosib' yn teimlo ar brydiau mai gweithred fradychus fyddai hynny. Ond y gwir yw y gallai datgan y teimpladau yn ogystal fod er lleshad, gan fy mod yn teimlo nad yw elfen gref o'n pentrefwyr yn sylweddoli, neu efallai ddim eisiau sylweddoli, y dirywiad sydd ym mywyd pentrefol a chymdeithasol y fro mewn, dyweder y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

Prysuraf i ddweud nad yw'r dirywiad hwn yn amlygu ei hun ymhob ardal. Roedd pentrefi dalgylch *Eco'r Wyddfa* yn nodedig iawn yn y gorffennol am lu o gymdeithasau diwylliedig, corau, dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr, ac yn y blaen, a phleser di-ben-draw yw sylwi fod yr hen awydd i gynnal Seindorf Arian yn dal mor fyw ag erioed ym mhentrefi Llanrug a Deiniolen. Yn anffodus darfu'r un dyhead yn y Waunfawr a Llanberis.

O ddarllen cynnwys amryw o bapurau bro, gan gynnwys *Lleu*, y papur sydd yn cofnodi bwrlwm amrywiaethol bywyd cymdeithasol Dyffryn Nantlle, mae un ffaith yn amlygu ei hun yn eglur i mi o leiaf, a hynny yw fod llawer mwy o gyd-gymdeithasu, mwy o'r hen fwrlwm pentrefol yn bodoli, ac yn sicr mwy o ymdeimlad o'r diwylliant gwerinol Cymreig yn bod heddiw bron ymhob pentref yn Nyffryn Nantlle, os yw'r gwahanol adroddiadau yn *Lleu* yn llinyn mesur fy edmygedd. Mae'r un argraff yn cael ei drosglwyddo gan darllenwyr ambell i bapur bro arall fel *Y Ffynnon* yn Eifionydd.

Mae'n rhaid gofyn beth sydd i gyfrif am y dirywiad cymdeithasol - a dyna yw onide? - ym mywyd pentrefi dalgylch *Eco Wyddfa*? A rhag i ambell un geisio fy hyrddio i'r llawr drwy fy atgoffa o fodolaeth sawl cangen o Ferched y Wawr neu Sefydliad y Merched yn y pentrefi dan sylw, ofnaf na allaf gysidro'r ffaith fod ugain o ferched, mwy neu lai, wedi ymgasglu ynghyd, unwaith y mis, yn gyfraniad o bwys mawr, gan nad yw yn ddigwyddiad sydd yn fodd i bentrefwyr o'r ddau ryw gyd-gyfarfod, cyd-fwynhau a chyd-gymdeithasu, a dyna i mi beth oedd ac a fydd eto, gobeithio, yn gwneud y bywyd pentrefol go-iawn yn rhywbeth gwerth ei flasau a'i

gofleidio, sef yr aelwyd bentrefol yn dod ynghyd yn gyson.

Wrth reswm, mae'r ffaith fod cynifer o'n capeli wedi cau wedi dylanwadu'n enfawr ar fywyd y pentrefi. Mae hyn yn amlwg iawn yn Llanberis, ble yr oedd Cymdeithas Lenyddol fywiog yn perthyn i bob un o'r capeli, a nifer sylweddol yn bresennol yng nghyfarfodydd cymdeithasau Gorffwysfa, Preswylfa, Capel Coch a Nant Padarn. Erbyn heddiw dim ond Cymdeithas Capel Coch sydd yn bod ac, yn ôl a ddeallaf, yn anffodus, nid yw amryw o selogion y cymdeithasau hynny a ddarfu bellach yn mynychu'r Gymdeithas sydd ar ôl.

Y dydd o'r blaen ymwelais â phentref Deiniolen, gan basio ar y ffordd y bwllch ble safai Capel yr Ysgoldy - yr addoldy oedd mor agos at fy nghalon, gan mai yno y cefais fy medyddio, ac am mai yno yr arferai teulu fy mam addoli am flynyddoedd. Ni fyddaf byth yn mynd heibio heb aros ennys ac edrych tros y wal a'r gwacter sydd yno heddiw.

Rhywle yn y difaterwch y cafodd Alafon ysbrydoliaeth i ganu clodydd Marged Fwyn Uch Ifan ac i hel ei gasgliad o gerddi. Ac onid yno, i gapel yr Ysgoldy, y doi drigolion y fro yn eu lluoedd i gefnogi ymdrechion pobol dda un o gapeli lleiaf yr ardal, ar ddechrau blwyddyn i gynnal cyngerdd o safon, ac i minnau yn llencyn gael presenoli fy hun a chael, yn ddarwybod, gyd-gyfrannu i gynorthwyo ardal wahanol i'm hardal fy hun?

Fel seren wib y bardd, diflannodd am byth mae gennyf ofn, yr hen ddyhead hwnnw fod angen i ni helpu'n gilydd o bryd i'w gilydd.

Arferwn pan yn blentyn ac wedi hynny yn ogystal, fod yn 'gyfarwydd' (os dyna'r disgrifiad cywir), ag amryw o deuluoedd pentrefi dalgylch yr Eco. O bosib' y ffaith fod fy nhad yn chwarelwr yn Chwarel Dinorwig oedd un rheswm am hynny, yn ogystal â'r ffaith i mi gyd-gysylltu â phlant yr holl bentrefi a fu fel minnau yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail. Hyd y dydd heddiw - ac mae tros drigain mlynedd ers hynny, - daw straeon fy nhad am hwn a'r llall yn y chwarel, selogion y bwrdd swper chwarel fel Meic y Rali, yn gyson i'r cof, a'r straeon hynny am ddynion na fu i mi erioed gyfarfod â hwy, greu ynof ryw adnabyddiaeth od, ac yn sicr fagu diddordeb yn

hynt a helynt cymdeithas y gwyddwn beth oedd ei hyd a'i lled, ond nid ei chynnwys mewn pentrefi fel Bethel, Llanrug a Chwm-y-glo dyweder.

O edrych yn ôl ar y dyddiau hynny, roeddwn i, fel cannoedd eraill yn y fro, yn iawn ein bod, nid o ran cig a gwaed efallai, ond o ran y cyd-gymysgu cymdeithasol, yn perthyn i'n gilydd, nid perthynas gyfreithiol mae'n wir, ond perthyn drwy briodas, ys dywedir.

Pam 'sgwn i fod y bywyd cymdeithasol, diwylliannol yn dal mor llewyrchus, yn ôl pob golwg, yn Nyffryn Nantlle, yn ôl yr adroddiadau lu a welir yn y Papur Bro *Lleu*?

Beth sydd wedi mynd o'i le yn Nyffryn Peris a'r pentrefi cyfagos, a fu, fe wn o brofiad pedwar ugain mlynedd, yn ferw gwyllt o ddiwylliant gwerinol, llesol?

Roedd dosbarthiadau'r W.E.A. ac allanol y Brifysgol yn hynod boblogaidd ar un cyfnod ac o'm rhan fy hun cefais fwynhau nosweithiau yn Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr yng nghwmni enwogion fel Cynan, Meuryn, Gwilym O. Roberts, a Dr Cyril Parry (tad y Dr Robin Parry, Llanberis, heddiw). A chofiaf am ddosbarth bywiog yn Neiniolen gyda'r hen gyfaill Richard Jones yn cadw llygaid barcud ar y cyfan.

Rwy'n dra ymwybodol na ddaw'r dyddiau cynhyrchol hynny fyth yn ôl, gwaetha'r modd, ond fel un sydd yn prynu dau neu dri o bapurau bro bob mis, rwyf yn llawn edmygedd o ymdrechion trigolion Dyffryn Nantlle ac Eifionydd, am ymdrech y mor ganmoladwy.

Pwy all wadu fod cyfrolau diddiwedd o hanes yn perthyn i'r ardal hon, a diolch i Dafydd Whiteside Thomas am ei erthyglau misol yn yr *Eco* i gadw rhywfaint o fflam yr hen gyfnod ynghynn. Mae ein dyled yn fawr iddo, ond pam nad oes Cymdeithas Hanes yn bod yn yr ardal?

Yn y Waunfawr, aflwyddiannus fu ymdrechion i ailsefydlu y Gymdeithas Lenyddol, cymdeithas a fu ar un adeg â thros 70 aelodau yn perthyn iddi. Felly hefyd ymdrech i geisio ailsefydlu Clwb yr Henoed (a bu Clwb eithriadol o lwyddiannus yma ar un cyfnod), ac ni allaf ond sylwi yn bur ganmoladwy ar adroddiadau am lwyddiant cymdeithasau a chlybiau cyffelyb mewn mannau eraill.

Clywais ar y radio'r dydd o'r blaen fod un o bob tri o drigolion Cymru heddiw wedi eu geni y tu allan i'r henwlad hon. Tybed a oes gan y ffaith

syfrdanol hon ddylanwad ar y newid a geir ym mywyd amryw o'n pentrefi?

Cefais fy magu ar aelwyd chwarelyddol ym mhentref Brynrefail, yn nalgylch yr Eco, ac yn hynod hynod falch a diolchgar am hynny, ac oherwydd diddordebau fy modryb, hynod garedig a oedd yn byw gyda ni, fe gefais yn ifanc iawn gyfle i ddarllen cyhoeddiadau fel *Y Llenor* ac o'r herwydd ennyn ynof gryn diddordeb yn y 'Pethe'.

Cofio hefyd, er yn ifanc, gael mynediad i gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Festri'r Capel i wrando ar noson waith, enwogion fel Bob Owen, Croesor; Llwyd o'r Bryn (diolch am lifft ryw lorri laeth); William Morris, ac eraill, a ninnau er ond ieuencid yn drachtio'r maeth gydag awch.

Rwyf yn clywed eisoes sawl darlennydd yn bloeddio yn fy nghlustiau'r foment hon 'Ia, ond mae petha' wedi newid'.

Tydw i ddim yn gwadu hynny o gwbl, ond rhaid gofyn, a hynny yn gyson, ac yn sgil y cynnydd mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol bröydd eraill, a oes raid i'r newid fod mor ddamniol, mor amlwg ac mor ddinistriol yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*, y pentrefi a gyfranogodd mor hynod hynod hael i ddiwylliant Cymru, ac yn sicr i ddiwylliant ei gwerin bobol yn y blynyddoedd a fu?

Pwysleisiaf mai nid beirniadaeth yw'r erthygl hon, ond ymgais i geisio datgan gofid a gofyn, er gwaethaf dylanwad pwerus y teledu, a oes eto awydd yn bodoli i ailsefydlu cymdeithasau a fyddai unwaith eto yn dwyn ynghyd (a hynny sy'n hanfodol) bentrefwyr ac ardalwyr ein cymunedau, fel yn y dyddiau gynt?

Onid oedd y cyd-bresenoli hwnnw yn well na photeli o donig canmoladwy Dr Douglas, neu Dr Marren, neu Dr Miles neu Dr Dan, er cystal y poteli hynny, i bobol yr ardal?

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

CHWILOTA

DIRGELWCH 'OLD MANTLET'



Ym mhen eithaf Cwm Dwythwch, yn swatio dan glogwyni'r Foel Gron ac i'r dwyrain o afon Tan yr Allt fel y plymia o'r creigiau i'r tir corslyd islaw, mae adeilad bychan. Ar fapiau mae'n cael ei ddisgrifio fel 'old mantlet'. Hefin Jones o Lanrug, un o wardeiniaid rhan-amser y Parc Cenedlaethol a dynnodd fy sylw ato, a holi beth yn union oedd pwrpas ei leoli yma.

Yn ystod mis Mai cefais gyfle i fynd i Gwm Dwythwch i gael golwg ar yr adeilad. Wrth gerdded y llwybr sy'n cyrchu ochr y llyn, roedd yn bosibl gweld olion yr hen gorlannau ar lethrau isaf Cefn Drum a'r Foel Goch, ond doedd dim golwg o'r 'old mantlet'. Doedd hynny fawr o syndod, oherwydd erbyn cyrraedd pen draw'r cwm, gellid gweld fod yr hen adeilad bychan wedi ei guddio gyda thywyrch, a'i fod yn toddi i mewn i'r dirwedd. Dim ond rhan uchaf un wal gerrig oedd i'w gweld; roedd y gweddill wedi eu cuddio. Felly, beth yn union yw 'mantlet'?

Yn ôl y geiriaduron, lle i warchod saethwyr, cysgodfan i amddiffyn â gynau yw ei ystyr. Ond pam codi y fath adeilad ym mherfeddion Cwm Dwythwch? A pha bryd yr adeiladwyd ef?

Gwyddwn fod ymarferion milwrol wedi eu cynnal yng Nghwm Brwynog yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a bod olion yn parhau ar y tir yno. Tybed a oedd yr ymarferion wedi cael eu cynnal yng Nghwm Dwythwch hefyd? Os felly, pam disgrifio'r adeilad bychan hwn fel un hen?

Doedd dim amdani ond chwilota mewn hen fapiau. Y map Ordnans manwl cynharaf o'r ardal yw'r un a gyhoeddwyd yn 1888. Does dim sôn am 'mantlet' ar hwnnw, ac nid yw'n ymddangos fod yr adeilad yn bod bryd hynny. Cyhoeddwyd y map Ordnans nesaf yn 1914. Roedd hwnnw'n seiliedig ar arolwg 1888 a chafodd ei gywiro yn 1912. Ar y map hwn mae'r adeilad wedi ei nodi a'i ddisgrifio fel 'old mantlet'. Felly, mae'n ymddangos ei fod wedi ei adeiladu ar ôl 1888, ond ei fod eisoes wedi colli ei ddefnyddioldeb erbyn 1912. Mae dyddiadau cyhoeddi'r mapiau hyn felly yn ei osod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Tybed nad pwrpas militaraidd oedd iddo?

A oedd posibl iddo fod yn gwt saethu adar ar y llyn? Unwaith eto, er nad wyf yn arbenigwr o bell ffordd ar hela, mae'n amheus gen i a fyddai rhywun â

gwn yn cuddio yma yn gallu anelu at adar ar wyneb Llyn Dwythwch! Ond mae'n bosibl mai saethu giach roeddent. Neu adar eraill hoff o dir corslyd a mynyddig.

Byddai unrhyw wybodaeth am yr hen adeilad bychan hwn o ddiddordeb. Beth amdani, drigolion Llanberis?

Gyda llaw, tra'n archwilio'r mapiau, diddorol nodi fod 'boathouse' ar lannau Llyn Dwythwch mor bell yn ôl â 1888, a'i fod yn parhau yno yn 1914. Erbyn heddiw, methais â gweld unrhyw olion i ddangos fod cychod wedi bod yn cael eu defnyddio ar y llyn. Oes rhywrai yn parhau i bysgota yno heddiw?

Cofnodion Capeli Llanberis

Beth amser yn ôl cefais restr gyflawn o fedyddiadau, priodasau a chladdedigathau capeli Annibynwyr Nant Padarn a Jeriwsalem, Llanberis. Maent yn rhychwantu'r cyfnod o 1946 hyd 1953, sef y cyfnod y bu'r Parch Lewis Griffith Roberts yn weinidog ar y ddwy eglwys. Ei fab, Alun Roberts o Gaernarfon a anfonodd y wybodaeth i mi, a deallaf fod o leiaf un o drigolion Llanberis o'r cyfnod hwnnw, ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon, yn ysu am gael y wybodaeth wedi ei chyhoeddi!

Mae'n ddigon posibl, wrth gwrs, fod yr holl wybodaeth wedi ei roi ar gof a chadw yn Adroddiadau Blynyddol y ddau gapel, ond faint o'r adroddiadau rheini sydd wedi eu diogelu. Yn wir, faint o adroddiadau blynyddol capeli bro'r 'Eco' sydd ar gadw yng nghartrefi aelodau neu gyn-ysgrifenyddion? Mae peryg i gofnodion gwerthfawr o'r fath fynd ar ddifancoll, yn enwedig os yw'r capel neu eglwys yn cau.

Yn achos Annibynwyr Llanberis, o leiaf, mae bron i ddeng mlynedd o gofnodion wedi eu diogelu.

Gan nad yw'r cyfnod dan sylw mor bell â hynny yn ôl, rwy'n gyndyn o gyhoeddi enwau gan fod posibl i lawer iawn o'r rhai a enwir fod yn byw yn Llanberis neu'r cyffiniau o hyd. Ond mae'n ddiddorol sylwi ar yr enwau a'r cyfeiriadau.

Rydym yn hen gyfarwydd ac enwau dieithr yn dod i'r ardal yn sgil datblygu diwydiant - y Clossiaid a'r Plemings yn hanes y gwaith copr er enghraifft. Beth tybed oedd yn denu enwau dieithr i'r ardal yn y cyfnod hwn? Ai gwersylla yma dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd roeddent? Mae dau o'r enwau



Adeilad yr 'old mantlet' neu'r cwt saethu ym mherfeddion Cwm Dwythwch. Fel y gwelwch, mae gweundir a chors eang yn ei wahanu oddi wrth y llyn. Mae lle i rhyw dri o bobl i sefyll o'i fewn.

yng anghyfarwydd i mi, sef Fosse ac Enott.

Nid priodasau lleol oedd rhai ohonynt chwaith. Yn ogystal â phriodasau rhwng cyplau o Lanberis neu gyplau o'r fro, roedd rhai yn dod o gryn bellter: Maesteg a Glanamau o dde Cymru, a Belper o Loegr. Deuai eraill o Frynsiencyn, Llanfairpwll a Niwbwrch (gweithio'n y chwarel o bosibl), ac o Nefyn, Botwnnog, Llanfrothen, Abersoch a Deganwy.

Roedd yn ymddangos fod Annibynwyr Llanberis yn cael oes reit dda! Yn rhestr y marwolaethau, roedd y mwyafrif wedi cael byw i oed yr addewid, a dim ond tri fu farw cyn cyrraedd eu hanner cant oed. Cafodd pymtheg fyw dros bedwar ugain mlwydd oed.

Mae'r mwyafrif o'r cyfeiriadau i lawr yn y pentref, ond sylwais ar gofnodi marwolaeth o'r Maenllwyd. Mae'r tŷ hwnnw bellach yn adfeilion. Tybed a'i dyma'r teulu olaf i fyw yno?

Oes atgofion am y cyfnod hwn gan rai o Annibynwyr Llanberis? Anfonwch air.

Garddwr Plastirion

Rai blynyddoedd yn ôl bellach, rhoddwyd cryn sylw i un o hen arddwyr Plastirion, Llanrug, a symudodd i Westy'r Ficoria pan werthwyd y stad. Yn ddiweddar cefais ymholiad am arddwr arall a fu'n gyfrifol am holl erddi'r Plas mewn cyfnod cynharach, sef gŵr o'r enw George Tyler. Daeth i Lanrug yn ŵr ifanc o swydd Gaerwrangon, ond symudodd yn ddiweddarach i Gaernarfon. Yr oedd yn enillydd cyson mewn sioeau amaethyddol ac yn feirniad hefyd. Yr oedd brawd iddo yn arddwr yn Mhen y Bryn, Caernarfon. Ar ddiwedd ei oes roedd George Tyler yn byw yn Lodj Cae Gwyn ar Lôn Bangor. Symudodd ei weddw yn ddiweddarach i Stryd Margaret yn y dref.

Os oes unrhyw un wedi clywed am y garddwr hwn neu â gwybodaeth am y teulu, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad ynglŷn â hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYNGERDD TUAG AT APÊL YR URDD. Ar yr 17eg o Fehefin cynhelir Cyngerdd yn y Ganolfan, Llanberis, i godi arian tuag at y targed a nodwyd i'r pentref fel cyfraniad at Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Bydd corau'r pentref, ynghyd â doniau lleol yn cymryd rhan. Am fwy o fanylion, gweler yr hysbyseb sydd yn y rhifyn yma.

DALIER SYLW. Dyddiad Cymanfa'r Annibynwyr yw Mehefin 5ed ac fe'i cynhelir yn Neuadd Gymuned Penisarwaun am 2.00.

Ni threfnir bws, mae digon o le i barcio ar fuarth yr Ysgol. Bydd Te Bach i ddilyn i bawb sy'n dymuno cymdeithasu. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth.

MARWOLAETH. Ychydig ddyddiau yn ôl derbynais y

newydd drwg am farwolaeth Emrys Owen, yn enedigol o Bethesda Street, ar yr llog o Fai, yn Solihull, Birmingham, yn 84 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i wraig, Madge, a'i ferch Gill.

Wedi i Emrys adael Ysgol Brynrefail, fe ymunodd a Swyddfa'r Di-waith, cyn iddo gael ei alw i'r fyddin o dan y drefn 'National Service'. Yn dilyn ei yrfa filwrol, penderfynodd Emrys ddilyn cwrs athro yng Ngholeg Llandrindod. Wedi cyflawni'r cwrs cafodd swydd fel athro yn ardal Birmingham ac yn ddiweddarach fe'i penodwyd yn brifathro.

Cynhelir ei angladd yn Amlogfa Robin Hood ar y laf o Fehefin gyda'r Parch Robert Parry, Capel y Groes Wrecsam, yn gwasanaethu.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

GENEDIGAETH. Yn ystod y mis ganwyd mab bach o'r enw Arthur i Mr a Mrs Daniel Wood, Fron Heulog. Rita a Dave wedi dod yn daid a nain am y tro cyntaf, a Sara yn fodryb. Pawb wedi gwirioni yn lân a phawb yn fwy na pharod i'w nyrsio. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu bach newydd a dymunwn bob iechyd a bendith iddynt i'r dyfodol.

DAMWAIN. Drwg oedd gennym ddeall fod Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, wedi syrthio yn y cartref. Bu raid iddi fynd i Ysbyty Gwynedd ond erbyn hyn y mae wedi cael dod oddi yno ac ar hyn o bryd y mae yn aros hefo'r genod. Gobeithio y bydd ichwi wella yn fuan a chael mynd a dod unwaith yn rhagor.

CYFARFOD PREGETHU. Cynhelir Cyfarfod Pregethu Sardis ar y Sulgwyn, sef y 12fed o Fehefin, am 2.00 o'r gloch, pryd y pregethir gan y Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

MARWOLAETH. Ar y 22ain o Ebrill daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Gwenda Olwen Roberts (Craigle gynt). Bu farw yn Ysbyty Wrecsam ar ôl salwch byr ond creulon iawn. Yr oedd Gwenda yn un o chwech o blant, sef pedair chwaer ac un brawd. Yn ferch hynaf i'r diweddar Mr a Mrs Robert Hugh Thomas, Craigle, fe gafodd ei magu ar aelwyd hynod o grefyddol a braf oedd gweld y genod a'u brawd yn cerdded i Eglwys Sant Mair ar y Sul. Yr oeddynt yn hynod o ffyddlon a gweithgar yno ac yn wych fel teulu hefo'r canu.

Cafodd Gwenda ei haddysgu yn Ysgol Dinorwig ac yna Brynrefail ac aeth oddi yno i Goleg y Santes Fair, Bangor, i gael hyfforddiant i fod yn athrawes. Wedi gorffen ei chwrs coleg aeth i ddysgu i Fanceinion ac ar ôl amser byr fe fu iddi briodi ac Emrys Roberts, Bronallt, ac fe fuont yn briod am 52 mlynedd.

Ar ôl rhai blynyddoedd fe fu i'r ddau fabwysiadu mab bychan, Gwyn, a bu iddi roi'r gorau i'w swydd fel athrawes am 5 mlynedd i fagu Gwyn cyn mynd yn ôl i ddysgu.

Wedi treulio blynyddoedd ym Manceinion, daeth y teulu yn ôl i Gymru, a byw yn Nyffryn Clwyd lle bu i Gwenda gael swydd fel athrawes yn Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth, Wrecsam. Wedi bod yno am beth amser cafodd y swydd o ddirprwy yr ysgol, lle bu tan ei hymddeoliad. Dim ond pan ddaeth yn ôl i Glwyd y cafodd Gwenda ddysgu yn y Gymraeg am y tro cyntaf.

Yn Gwersyllt yr oeddynt yn cartrefu ac fe enwyd y tŷ yn Bronallt. Yn y fan yma bu Gwenda yn ffyddlon a physur yn yr Eglwys a chan ei bod yn ferch hynod o ddawnus gallai droi ei llaw at amryw o bethau. Fe fu ei marwolaeth yn golled fawr i'r Eglwys yno.

Bu'r gwasanaeth claddu yn Amlogfa Pentre Bychan ar 11 Mai, ac ar y dydd Sul, 15fed o Fai, claddwyd ei llwch yn Eglwys Gwersyllt.

Carem fel ardal unwaith eto gydymdeimlo â Gracie, Nan, Margaret, Mona ac Irfon a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem. Boed i Dduw fod yn agos atoch yn y dyddiau tywyll yma.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON



**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â

fflam .biz

JOHN HUGHES a'i FAB

IARD LO • Carmel • Gwynedd

01286 882160

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



**Dros 50? Medrwrch
ymddiried yng Nghynnyrch
a Gwasanaethau**

- | | |
|---------------------------|-----------------------------|
| YSWIRIANT CARTREF | NWY A THRYDAN |
| YSWIRIANT CAR | CYNLLUNIAU ANGLADD |
| YSWIRIANT TEITHIO | GWYLIAU |
| GWASANAETH LARWM PERSONOL | YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR |

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited.
Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

I gael mwy o fanylion ymwelwch â ni yn:

**Age Concern Gwynedd a Mon,
Ty Seiont, Ffordd,
Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Tel: 01286 678310
neu ffoniwch: 0800 085 3741
neu ymwelwch â:
www.ageconcern.org.uk/products**

**AGE
Concern**

Age UK yw'r grym newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae teulu Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Astral House, 1268 London Road, SW16 4ER

ACOWAL880V2JUL10_CS024825_10

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

(Newyddion mis Mai - rhy hwyr i'r rhifyn)

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: £30: Mr Dave Martin, Tegfan; £20: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £10: Mrs M.E. Ouebury, d/o Bryn Gwenallt.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Ar y 3ydd o Fawrth, cynhaliwyd ein Cyfarfod Gŵyl Dewi yng nghwmni y Parch W.R. Williams, Y Felinheli, ein gŵr gwadd am y prynhawn. Siaradodd Mr Williams am y newid sydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd ac adroddodd amryw o straeon doniol am bethau oedd wedi digwydd yn ei deulu dros y blynyddoedd.

Diolchodd y Llywydd i Mr Williams ac fe ymunodd o â'r aelodau i fwynhau te hyfryd wedi ei baratoi gan yr aelodau.

Bnawn Iau, 8fed Ebrill cynhaliwyd y cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr

aelodau gan gyfeirio at Nancy Buckley oedd ddim yn bresennol gan nad ydyw wedi bod yn dda yn ddiweddar, gan ddymuno gwellhad buan iddi.

Darllenwyd y Llythyr Misol a chyfeiriwyd yn arbennig at y ddau gyfarfod sydd i'w cynnal yn ystod y misoedd nesaf, sef yr Arddangosfa o Ffrogiau Priodas ar 25 Mai, a'r cinio yn Llanberis ar 21 Mehefin. Casglwyd enwau'r rhai oedd yn dymuno mynd.

Ein gwraig wadd am y prynhawn oedd Eluned Yaxley, un o weithwyr Tŷ Gobaith, Tynygroes. Aeth â ni drwy daith fanwl iawn o'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yn Nhŷ Gobaith, gan egluro pob rhan o'r ystafelloedd sydd yn y tŷ a'r gwaith trylwyr sy'n cael ei wneud gan yr holl staff er mwyn helpu'r plant bach ac, erbyn hyn, rai hŷn sy'n dioddef cymaint. Maent hefyd yn gefn mawr i'r rhieni sy'n mynd trwy amser pryderus iawn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd yr aelodau wedi bod yn casglu ceiniogau tuag at Tŷ Gobaith. Hilda Williams oedd yn gyfrifol am y casgliad yma a chafodd y cyfle i gyflwyno'r casgliad o £125 i Eluned tuag at Tŷ Gobaith. Mae'r aelodau wedi penderfynu gwneud casgliad eto y flwyddyn yma tuag at yr un achos.

MERCHED Y WAWR. Yn ein cyfarfod nos Iau, 24 Mawrth, cawsom y pleser o groesawu un o'n haelodau yn siaradwraig wadd. Mae Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, yn un o'n haelodau mwyaf anturus ac, ers rhai blynyddoedd bellach, mae hi wedi achub ar bob cyfle i deithio'r byd yng nghwmni ei gŵr, Iestyn. Maent wedi teithio cyn belled ag Alaska i'r gorllewin a Seland Newydd i'r dwyrain ac wedi ymweld â sawl gwlad yn Ewrop a'r dwyrain

pell.

Y tro hwn Gorllewin Affrica oedd testun y sgwrs a chawsom wledd o luniau difyr a lliwgar o sawl gwlad ar hyd arfordir y cyfandir. Yr hyn oedd yn cyfoethogi'r profiad oedd bod Brenda wedi cadw dyddiadur o'r daith, ac wrth ein tywys ni drwy'r lluniau bu'n darllen pytau ohono.

Diolchwyd i Brenda gan Heulwen Hughes, a dynnodd ein sylw at y ffaith bod Brenda ac Iestyn wedi bwriadu cychwyn ar daith arall ymhen ychydig ddyddiau, ond diolch byth bod y daith honno wedi ei chanslo, oherwydd i Libya yr oedden nhw wedi bwriadu mynd!

Diolch yn fawr i Brenda am rannu ei phrofiadau gyda ni, a gobeithio'n wir y caiff gyfle i rannu hanes un o'i theithiau eraill gyda ni yn y dyfodol.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Iau, 28 Ebrill, yn y Ganolfan a'n gŵr gwadd fydd y garddwr a'r cyflwynydd teledu, Russell Jones. Wedyn, nos Iau, 26 Mai, cawn groesawu'r cerddor a'r cynhyrchydd, Erddin Llwyd, fydd yn siarad ar bwnc 'Waunfawr.tv'. Croeso i aelodau hen a newydd.

LLONGYFARCHIADAU i dim rygbi dan 12 oed yr Urdd ar chwarae mor dda yn y gemau sir. Byddant yn awr yn chwarae yn erbyn timau o bob cwr o Gymru. Dymunwn bob hwyl iddynt yn Llanelli ganol mis Mai.

DA IAWN HEFYD, Guto, wedi i'w waith celf ddod yn fuddugol yn y sir ac erbyn hyn wedi mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe i gael ei feirniadu.

DYWEDDIAD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Deian Elfryn,

Coed Gwydryn, ar ei ddyweddiad â Gwenno o Ruthun.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mair a Colin, Stad Bro Waun, ar enedigaeth Colin, eu mab bach newydd. Brawd bach i Robin a Dion, ŵyr i Mrs Megan Williams, Bryn Difyr a gor-ŵyr i Mrs Margaret Jones, Glasfryn.

GWELLHAD BUAN.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i'r rhai ohonoch sydd heb fod yn dda yn ddiweddar:

Mrs Iris Owen, Stad Tŷ Hen, wedi iddi fod yn yr ysbyty ac hefyd, Keith, sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Mrs Nela Pritchard, Stad Croes y Waun, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty ym Mangor.

Mr Norman Williams, Llidiart Wen, sydd adref o'r ysbyty yn Lerpwl wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid.

Mr Duncan Brown, Gwelfor, a Mr Ifan Pritchard, Stad Tŷ Hen; Mrs Dilys Griffith, Stad Tref Eilian, a dwy chwaer fach Erin Haf ac Alaw Non, Stad Dôl Erddi, wedi iddynt dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Alaw Non Roberts, 7 Dôl Erddi, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion mae wedi eu derbyn ar ôl bod yn yr ysbyty. Diolch arbennig i'r staff a phlant y Dosbarth Derbyn am y cerdyn a'r anrheg. Hyderwn y byddwch yn gwella ac yn cryfhau o ddydd i ddydd.

DAMWAIN. Gobeithiwn yn fawr bod Phil Lowe, Megan a Gwion, Ger-y-Ffynnon, yn dod at eu hunain wedi iddynt fod mewn damwain car yn ddiweddar.

parhad ar dudalen 10 a 21



Hilda Williams yn cyflwyno £125 i Eluned Yaxley o Tŷ Gobaith, Tynygroes.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwryfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Cefnogwch ein hysbysebwy

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CAEATHRO (Newyddion mis Mai - rhy hwyr i'r rhifyn!)

YMDDEOLIAD. Pob lwc i Dr Gareth Parry Jones, Bryn Eglwys, yn ar ei ymddeoliad. Yn enedigol o Aberdaron, dechreuodd fel meddyg yng Nghaernarfon yn 1979. Bydd cyfle rŵan iddo fwynhau ymweld â mannau uchel ar draws y byd.

EISTEDDFODAU'R URDD. Llongyfarchiadau i Elan Jones, Siôn Ynyr a Dafydd Eryl sydd yn aelodau o Fand Pres Ysgol Bontnewydd. Enillodd y band yng nghystadlaeth Eisteddfod Sir yr urdd a byddant yn awr yn teithio i Abertawe ddiwedd mis Mai i gymryd rhan ym Mhrifwyl yr Urdd. Da iawn!

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Y Ganolfan, Y Waunfawr ar nos Lun, 11 Ebrill. Trafodir dyfodol tir Gerddi Bach y Cyngor gan Is-bwyllgor y Cyngor. Bydd y Clerc yn ceisio darganfod enw y datblygwr arfaethedig ar safle Melin Peblig (gan fod mynedfa'r safle yn Ward Caethro) er mwyn trafod ei syniadau ac effaith posibl ar yr ardal ehangach.

Roedd y Cyngor yn cefnogi cais cynllunio defnyddio'r modurdy ger mynedfa'r Fynwent ar gyfer dibenion personol yn unig ac nid at ddiben arall o gwbl. Hefyd doedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i gadw rhodfa a chodi storfa amaethyddol newydd a chwt ieir ar dir wedi ei leoli i'r dde o gylchfan Caethro, y datblygiad wedi'i gychwyn heb ganiatâd cynllunio.

Derbyniwyd gan y Cyngor y Fantolen ar gyfer 2010/11. Ymhlith y grantiau a'r rhoddion oedd £100 i Glwb Merched Caethro; £250 ar gyfer datblygu Cae Stanley gan Glwb Pêl-droed

Bontnewydd; £250 i Gymdeithas Cae Chwarae Caethro; £120 i Ysgol Feithrin Bontnewydd a £200 tuag at ddatblygu tirwedd Ysgol Gynradd Bontnewydd; £150 i Gronfa Mynwent Caethro; £200 i Apêl Caethro Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012. Rhoddwyd hefyd £500 tuag at Apêl Sir Gaernarfon, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

PWYLLGOR APÊL CAEATHRO EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD ERYRI 2012. Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Lun, 9 Mai am 7.00 o'r gloch yng nghanolfan y Capel. Croeso i bawb.

RYGBI CAERNARFON. Llongyfarchiadau i Llŷr Jones, Erw Wen, aelod o dim buddugol o dan 14 oed Clwb Rygbi Caernarfon ar ennill o 44-7 yn erbyn Llangefni yng Nghystadlaeth Cwpan Eryri ar 8 Mai.

ETHOLIAD. Llongyfarchiadau i'r 52% o etholwyr a fu'n pleidleisio ar 5 Mai. Roedd y canran yn is na'r un yn y Refferendwm ym mis Mai ond, unwaith eto, roedd e yn un o'r uchaf yng Nghymru. 'Could do better.'

GWELLHAD. Ar ôl damwain ger y tŷ mae John Pritchard, Ty'n Gors Newydd, yn gwella'n ara deg.

ROWND A ROWND. Dydd Sadwrn, 18 Mehefin, am 2.00 o'r gloch ar y Cae Chwarae Pêl-droed bydd tîm pêl-droed o sêr actorion *Rownd a Rownd* yn wynebu her gan XI Dewision Caethro. Yn ogystal â chyfle i weld yr ornest, bydd raffl a lluniaeth ysgafn ar gael. Mynediad £2 i oedolion a 50c i blant, gydag elw'r prynhawn yn mynd i gronfa Apêl Caethro, Eisteddfod Genedlaethol yr

Urdd Eryri 2012.

TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caethro am fis Mai oedd: £40: (45) Bobby Owen, 2 Erw Wen; £25: (66) Nia Hughes, Tai Glangwna; £15: (38) John Pritchard, Ty'n Gors Newydd; £5: (07) Margaret Honswerth, Y Barn.

Gall hapchwaraewyr ddewis talu'r cyfraniad misol trwy Orchymyn Banc trwy gysylltu â'r sawl sy'n casglu'n fisol o

ddrws i ddrws.

NEWYDDION Y CAPEL. Disgwylir cynnal yr oedfaon a chyfarfodydd yr Ysgol Sul i'r plant yn ystod mis Mehefin.

5: 2.00 Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson. Cyfarfod Blynnyddol yr Eglwys i ddilyn, wedyn Cyfarfod Swyddogion.

12: 11.00 Ysgol Sul

19: 10.00 Mr John H. Hughes, 11.00 Ysgol Sul

26: 11.00 Ysgol Sul.

Parhad WAUNFAWR

Dymuniadau gorau hefyd i'r tri brawd (y triplets) Dafydd, Marc a Siôn Greasley, 8 Stad Pant Waun, fu'n dathlu cyrraedd eu un ar hugain mlwydd oed yn ddiweddar. Dipyn o ddathliad, siŵr o fod! **ADREF O'R YSBYTY.** Croeso adref i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, wedi iddi orfod treulio cyfnod yn yr ysbty. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well, Mrs Owen.

Hefyd anfonwn ein cofion gorau at Catrin Williams, 5 Ael y Bryn, wedi iddi gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithiwn dy fod yn llawer gwell erbyn hyn, Catrin. Dymunwn wellhad buan hefyd i Manon Jones, 7 Ael y Bryn, wedi iddi fod yn yr ysbty. Croeso i Manon a'i theulu yn ôl i'r Waun.

CYDYMDEIMLO. Daeth colled a thristwch i ran teuluoedd yn y pentref a chydymdeimlwn yn ddwys â chi oll:

Teulu a ffrindiau Mrs Blodwen Hughes a oedd yn byw yn Stad Llŷs y Waen yn eu profedigaeth o'i cholli.

Yn sydyn yn ei gartref, Stad Tref Eilian, bu farw Mr Meirion Williams. Cydymdeimlwn yn ddwys â Linda a Jill, ei chwiorydd, a'r teulu yn eu hiraeth.

Daeth profedigaeth o golli ei

chwaer i ran Mrs Iris Evans, Stad Croes y Waun, Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich colled.

Bu farw tad Mrs Ann Till, Bryn Meredydd, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â chi a'r teulu yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlwn ag Elfyn Griffith a theulu Blaen y Nant, Stad Bro Hyfryd, yn eich profedigaeth o golli mam a nain a oedd yn annwyl iawn i chi.

Un oedd wedi ein diddanu am flynyddoedd lawer trwy ei ganu swynol oedd Mr Alun Tudur Williams (Alun Mabon) gynt o Stad Bro Waun ond a oedd wedi ymgartrefu yng Nghartref Preswyl Cerrig yr Afon yn ddiweddar. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwn â'i chwaer, Mrs Betty Hughes, a theulu Collfryn yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMO. Yn dawel yn ei gartref yn Lerpwl, bu farw Ifan Lewis (Tai Isaf, gynt) yn 70 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod, Mo, ac hefyd â'i chwaer, Ildid.

LLONGYFARCHIADAU i Rhodri Siôn, Tŷ Pen, Stad Llŷs y Waen, un o'r actorion yn y ddrama Un Nos Ola Leuad (addasiad o nofel Caradog Prichard) gyda chwmni Theatr Bara Caws.



BOSCH Service
Car Service

AAW **ATA** **www.a-v-w.co.uk**
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AAW **BOSCH Car Service**

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DIOLCH. Dymuna Llion a Linzi ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Elan Mai. Diolch o galon.

LLONGYFARCHIADAU i Gwion Wyn Jones, Stad Eryri ar ei lwyddiant ar ganu, llefaru a chwarae'r piano yn Eisteddfodau Clynnog, Y Ffôr, Penrhyndeudraeth, Mynytho, Bontnewydd, Chwilog ac Eisteddfod Môn. Da iawn ti, Gwion!

CYNGERDD LOIS. Bu Owain Llestyn Thomas a'i chwaer Elen, Elin a Lowri Jones a Gwenllian Dauncey Griffiths yn cymryd rhan mewn cyngerdd ardderchog ym Mhenisrwaun a drefnwyd gan eu athrawes Cerdd - Lois Eifion. Cyngerdd oedd i godi arian tuag at dreuliau plant Ysgol Penisrwaun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

DIOLCH. Dymuna Gethin Wyn Griffiths, Dolserau, Stad Eryri, ddiolch i bawb - yn unigolion a sefydliadau a gyfrannodd mor hael tuag at Gronfa Apêl Patagonia, Ysgol Brynrefail. Diolch i bawb gefnogodd y Gig yng Nghlwb Rygbi Caernarfon, yn enwedig i'r bandiau a wnaeth berfformio yn ddi-dâl, i Myfyr a staff y Clwb Rygbi ac i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant.

PWYLLGOR APÊL BETHEL, LLANDDEINIOLLEN A SEION, EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012.

Dyma'r ddau weithgaredd nesaf fydd yn cael eu cynnal tuag at yr apêl uchod.

Nos Lun, Mehefin 6ed am 6 o'r gloch.

Taith gerdded leol yn cychwyn o'r Neuadd Goffa fydd yn addas i oedolion a phlant yn cael ei threfnu gan Seiriol a Beti Owen.

Bydd lluniaeth ar gael ar ddiwedd y daith yn Festri'r Cysegr yn cynnwys cw^n poeth, hufen ia a phaned neu ddiod oer - Cost y daith fydd £2 i oedolion a £1 i blant fydd yn cynnwys y lluniaeth. Dowch yn llu.

Nos Wener, Mehefin 10fed am 6 o'r gloch.

Noson o hwyl ar Gae Coed Belyn **MABOLGIAMOC** i blant oed cynradd a Bl. 7, 8 a 9 Ysgol Brynrefail dan ofal Richard Lloyd Jones. Lluniaeth ysgafn ar gael. Dowch draw am noson o hwyl!

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Liz Hughes, Bethlyn, yn dilyn ei thriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 11 Mai, cafwyd noson arbennig o ddefnyddiol i ni ferched yng nghwmni Nia Wyn Hughes, sydd yn gynrychiolwr i gwmni colur Vie cosmetics, oedd yn dangos ei sgiliau gyda cholur. Bu Mair Read yn ddewr iawn yn cytuno i Nia gael arddangos ei sgiliau coluro arni ac yr oedd pawb yn tystio ei bod yn edrych yn fendigedig ar y diwedd. Diolchwyd i Nia am noson ddifys a defnyddiol gan Lis Evans.

Croesawodd ein Llywydd, Rhian Hughes, bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig felly, Rita, gan ddatgan ein bod fel cangen yn hynod falch ei bod yn teimlo fel ailgydio yn y gweithgareddau ar ôl ei phrofedigaeth lem yn ddiweddar. Braf hefyd oedd gweld Falmai yn ôl wedi ei hanffawd a chael croesawu ein pererinion yn ôl o'r Wladfa, sef Ann Elis, Mair Price, Mair Read a Dilys Perez.

Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau gorau at Gwyneth Jones sydd wedi cael triniaeth ar ei phen-glin yn Ysbyty Gobowen ac sydd bellach adref

ac yn gwella. Yn yr un modd anfonwyd ein dymuniadau gorau am wellhad buan at fam Anne Lewis a Sharon Owen, ac at Wil Parry, gŵr Nora, y ddau wedi cael cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Sharon Owen ar ei phenodiad i'w swydd newydd a hefyd Margaret ar ddod yn nain unwaith eto, i Tirion Ilan, mab bach a aned i Lois a John Lloyd, Rhuthun.

Darllenwyd llythyrau diolch gan Manon Elwyn a Gethin Griffiths am y rhodd tuag at gostau eu taith gyda'r Urdd i Batagonia yn mis Hydref.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y tymor nesaf: **Llywydd:** Rita Williams; **is-Llywydd:** Glenys Griffiths; **Ysgrifennydd:** Ellen Ellis; **is-Ysgrifennydd:** Eirlys Williams, **Trysorydd:** Lis Watkin; **is-Drysorydd:** Nora Parry, gyda Gwyneth Jones, Bet Owen, Falmai Owen, Alys Jones, Ann Elis a Sheila Roberts yn aelodau o'r pwyllgor. Diolchwyd iddynt am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith.

Gofynnwyd yn garedig i bawb sydd heb gael cyfle hyd yn hyn, i ddychwelyd y bonion a'r arian ar gyfer y Raffl Cenedlaethol i Edwina yn ddiymdroi a hefyd i ddychwelyd eu dewis o fwyd a'r arian ar gyfer ein swper Pentymor ym Mwyty Llew, Dinas Dinlle ar 8 Mehefin, cyn 1 Mehefin os gwelwch yn dda. Diolchwyd i Sharon Owen ac Eryl Roberts am baratoi y baned ac enillydd lwcus y raffl y tro hwn oedd Falmai Owen.

CELT A'I DARIAN



Yn y Faenol ar y Sed o Fai, enillodd Celt Moss Ras Trawsgwlad i fechgyn blwyddyn 3 ysgolion Eryri a Chonwy. Cystadleuaeth i aelodau yr Urdd oedd hi.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig



www.ffmpegia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswariant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

YSGOL BRYNREFAIL

COFNOD CYRHAEDDIAD



Ar brynhawn dydd Llun, 9fed o Fai 2011 fe gafwyd cyfarfod yn Neuadd yr Ysgol a oedd, ar yr un olwg, yn drist ac eto'n llawn o falchder. Tristwch oherwydd bod gyrfa myfyrwyr blwyddyn 11 yn dirwyn i ben ond balchder hefyd yn eu doniau, eu cyraeddiadau a'u cyfraniadau i fywyd yr Ysgol.

Cyflwynodd Cadeirydd Corff y Llywodraethwyr, Mrs Ann Pritchard Jones Gofnod Cyrhaeddiad personol i bob myfyriwr, cofnod sydd yn llawn o wybodaeth bersonol am eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail.

Nid cynnwys cyraeddiadau a thystysgrifau yn unig mae'r cofnod ond mae hefyd yn asesiad crynodyn sydd yn bwysig nid yn unig i'r myfyriwr ond hefyd i gyflogwyr ac eraill yn y byd tu hwnt i'r Ysgol. Mae'n gofnod sydd yn rhoi grym i fyfyrwr i fod yn rhan o'r broses o asesiad, cofnodi ac adolygu eu cyraeddiadau mewn deialog gyda'u hathrawon.

Ac felly dyma ffarwelio gyda rhan o deulu Ysgol Brynrefail a'r Pennaeth, Mr Eifion Jones, yn dymuno'r gorau i bob un ohonynt ble bynnag bydd eu dyfodol.

WYTHNOS SGILIAU BLWYDDYN 7

Yn ystod yr wythnos 11eg-15fed Ebrill 2011 cafodd disgyblion blwyddyn 7 lu o brofiadau i

ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn ogystal â'u gallu i weithio gyda'i gilydd.

Trefn y gweithgareddau oedd ymgasglu yn y llyfrgell yn y lle cyntaf, er mwyn deall prif bwrpas yr wythnos sef, rhoi cyfle i'r disgyblion eu hunain benderfynu beth yr hoffent eu gwneud yn sgil cael cyfle i fynd ar daith yn ystod y dydd i gasglu gwybodaeth a gwrandao ar wahanol siaradwyr.

Cawsant wybod mai tasgau yn ymwneud â Chymraeg, Celf a Daearyddiaeth yr oeddynt yn mynd i weithio arnynt ac mae'r peth pwysicaf oedd eu bod yn gweithio'n annibynnol.

Wedi hynny aethom i gyd ar y bws at Ben Llyn er mwyn cychwyn ar y daith i Lanberis. Yr oedd pawb wedi rhyfeddu at y ffaith bod rhan o'r dafarn yr oedd Marged Uch Ifan yn ei chadw yn dal i sefyll ar lan yr afon, sef toiledau Tafarn y Newborough! Ymlaen wedyn i glywed hanes Craig yr Undeb cyn cerdded ar hyd Lôn Las at Gastell Dolbadarn. Cawsom ginio yno a dysgu am gefndir y castell ac am y cerrig canon.

Yr oedd hi'n bryd wedyn cerdded at islaw Ysbyty'r Chwarel er mwyn gwrandao ar Dafydd Whiteside Thomas yn adrodd chwedlau cysylltiedig â'r ardal. Yr oedd ei straeon yn rhyfeddu'r disgyblion a diolch

iddo am fod mor fodlon i ddod atom a rhannu o'i wybodaeth unwaith eto eleni.

I orffen ein taith aethom i Ysbyty'r Chwarel a dysgu gan Ken Latham mai yma y tynnwyd y lluniau pelydr x cyntaf yn ogystal â nifer fawr o ffeithiau eraill am feddyginiaethau'r cyfnod ac am ambell feddyg a fu'n gweithio yma. Unwaith eto dysgodd y plant lawer trwy wrando ar Mr Latham.

Yn ôl â ni i'r Ysgol wedyn ac i'r llyfrgell i wyllo sioe sleidiau Gareth Roberts o Ddinorwig. Siaradodd â'r plant am hanes yr ardal ers miliynau o flynyddoedd ac yr oedd pawb wedi gwirioni ar y lluniau diddorol oedd ganddo o'r llefydd roeddem wedi eu gweld yn ystod y dydd a sut roeddynt yn edrych yn y gorffennol. Diolch yn fawr i Mr Roberts am ysbrydoli'r plant ar ddiwedd y dydd.

Y bore canlynol aeth y disgyblion ati yn eu grwpiau i weithio ar wahanol dasgau yr

oeddynt hwy eu hunain wedi penderfynu arnynt. Gwelwyd cyflwyniadau 'Photostory', 'Pwynt Pwer' a 'Movie Maker' yn cael eu datblygu yn yr ystafell Technoleg Gwybodaeth.

Yn yr ystafell Gelf roedd modelau o gestyll, ysbyty, cewri a thylwyth teg yn cael eu llunio. Ac yn yr ystafell dosbarth roedd pamffledi a mapiau yn cael eu cysodi a barddoniaeth a chwedlau yn cael eu cyfansoddi.

I ni'r athrawon, oedd yn goruchwilio'r gwaith yn y dosbarthiadau, yr hyn oedd yn wych oedd gweld y disgyblion yn gweithio'n ddiwyd, yn ddiolol ac yn annibynnol ar y tasgau a hynny'n llawn brwdfrydedd.

Bydd y gwaith a grëwyd gan y plant yn cael ei arddangos yng nghefn neuadd yr Ysgol yn ystod mis Mai.

Diolch i'r holl athrawon a weithiodd yn galed i ofalu bod yr wythnos yn llwyddiant: Mrs Gwenno Bebb, Mrs Lowri Roberts, Mrs Catrin Wyn Jones, Mrs Siân Owen, Mrs Jennifer Jones, Mr Dylan Parry, Ms Alaw Llwyd a Mr Gareth Eifion Jones. Diolch hefyd i'r cymorthyddion ac i'r athrawon dan hyfforddiant.

On y fwy na dim diolch i holl ddisgyblion blwyddyn 7 am weithio mor ddiwyd a brwdfrydig yn ystod yr wythnos.

TÎM RYGBI BLWYDDYN 8 Ffeinal Plât Eryri



Ar gaeau rygbi'r Morfa, sef cartref Clwb Rygbi Tref Caernarfon fe chwaraewyd gêm rygbi frwdfrydig yn ffeinal Plât Eryri rhwng Ysgol Brynrefail ac Ysgol Tywyn. Bu sgrymio a thaclo ffyrnig rhwng y ddau dim ynghyd â symudiadau canmoladwy ac yr oedd yn gêm agos hyd at ei ddiwedd. Er eu hymdrechion taer colli fu hanes tîm blwyddyn 8 o 12pwynt i 10 pwynt. Sgoriwyd ceisiadau tîm Brynrefail gan Dafydd Rowlands a Guto Pierce ac fe droswyd y ceisiadau gyda chicio da gan Dafydd Llywelyn. *Hogia Brynrefs - da 'de!*

SBOTOLAU AR EIRY PRICE, SEREN S4C

Mae'n debyg eich bod i gyd wedi dilyn y rhaglen, *Sawl Seren Sy 'Na* ar S4C yn ddiweddar. Wel fe gafodd ein gohebydd y fraint o siarad gyda'r enillydd.

Wel, Eiry be 'di dy hanes di o ran dechrau cystadlu?

Dwi'n byw'n Llanddeiniolen a'r gystadleuaeth gyntaf i mi gystadlu ynddi oedd pan oeddwn yn naw oed yn Ysgol

